

Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Caffael

Tachwedd 2022



Argymhellion

- Argymhelliad 1.** Rydym yn argymell y dylid hefyd geisio cydsyniad y Senedd ar gyfer cymalau 114 a 116, a dylai unrhyw femoranda yn y dyfodol mewn perthynas â'r Bil eu nodi'n unol â hynny..... 9
- Argymhelliad 2.** Rydym yn argymell bod y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol yn rhoi amserlen i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus ar gyfer cyflwyno a gweithredu is-ddeddfwriaeth, gan gynnwys rheoliadau a fydd yn cynnwys manylion ynghylch sut y bydd rheolau caffael yn gweithredu..... 14
- Argymhelliad 3.** Rydym yn argymell bod y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus ymhen 12 mis ar hynt Bil Caffael Llywodraeth y DU a'i weithrediad yng Nghymru..... 14
- Argymhelliad 4.** Rydym yn argymell bod y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygu'r cynllun prosiect ar gyfer is-ddeddfwriaeth sy'n angenrheidiol er mwyn rhoi manylion ar waith cyn i'r Bil ddod i rym, y trafodaethau â Swyddfa'r Cabinet i sicrhau dull gweithredu cyson a'r amserlenni ar gyfer yr is-ddeddfwriaeth..... 14
- Argymhelliad 5.** Rydym yn argymell bod y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am y trafodaethau rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar gyflwyno gwelliannau i gymal 110(10) i wneud rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru o dan gymal 70 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.21

1. Cefndir

Bil Caffael Llywodraeth y DU

1. Ym mis Rhagfyr 2020, cynigiodd Llywodraeth y DU ddiwygio deddfwriaeth caffael yn dilyn diwedd y cyfnod pontio ar gyfer ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd (UE). Yn ei Phapur Gwyrdd, *Transforming public procurement*, dywedodd Llywodraeth y DU mai ei nod oedd:

*'[...] to speed up and simplify our procurement processes, place value for money at their heart, and unleash opportunities for small businesses, charities and social enterprises to innovate in public service delivery.'*¹

2. Ym mis Awst 2021, dywedodd Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol (y Gweinidog), ei bod wedi derbyn cynnig gan Lywodraeth y DU i ddefnyddio deddfwriaeth Llywodraeth y DU sydd ar y gweill i "ddiwygio'r prosesau sylfaenol sy'n sail i gaffael" yng Nghymru.²

3. Cyflwynwyd y Bil Caffael (y Bil) wedi hynny yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 11 Mai 2022.³ Noddir y Bil gan Swyddfa'r Cabinet. Mae'r Bil fel y'i cyflwynwyd yn cynnwys 116 o gymalau ac 11 o atodlenni; mae pob un o'r cymalau hyn, ac eithrio tri, yn gymwys i Gymru.⁴

4. Mae'r Nodiadau Esboniadol i'r Bil yn nodi:

*'The purpose of the Procurement Bill is to reform the United Kingdom's public procurement regime following its exit from the European Union (EU), to create a simpler and more transparent system not based on transposed EU Directives.'*⁵

5. Cafodd y Bil ei Ail Ddarlleniad yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 25 Mai 2022. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, roedd y Bil wedi cwblhau'r Cyfnod Pwyllgor yn Nhŷ'r Arglwyddi, gyda dyddiad i'w gyhoeddi ar gyfer cyflwyno adroddiad.

¹ Llywodraeth y DU, *Papur Gwyrdd: Transforming public procurement*, Rhagfyr 2020, paragraff 1

² Llywodraeth Cymru, *Datganiad Ysgrifenedig: Y Ffordd Ymlaen ar gyfer Diwygio Caffael yng Nghymru*, 18 Awst 2021

³ *Y Bil Caffael fel y'i cyflwynwyd* (Bil 4 Tŷ'r Arglwyddi)

⁴ *Y Bil Caffael: Nodiadau Esboniadol*, Atodiad A – Rychwant tiriogaethol a chymhwyso yn y Deyrnas Unedig

⁵ Y Bil Caffael: Nodiadau Esboniadol, paragraff 1

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru (Memorandwm Rhif 1)

- 6.** Mae Rheolau Sefydlog 29.1 a 29.2 yn darparu bod angen Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol pan fo unrhyw Fil gan Lywodraeth y DU sy'n Fil perthnasol yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at unrhyw ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd neu sy'n addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.
- 7.** Ar 9 Mehefin 2022, gosododd y Gweinidog Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (Memorandwm Rhif 1) gerbron y Senedd mewn cysylltiad â'r Bil.⁶
- 8.** Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus gyflwyno adroddiad ar Femorandwm Rhif 1 erbyn 6 Hydref 2022.⁷ Symudwyd y dyddiad adrodd hwn wedyn i 10 Tachwedd,⁸ ac yna i 24 Tachwedd 2022.⁹

Y darpariaethau y mae angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer

- 9.** Mae paragraffau 17 i 102 o Femorandwm Rhif 1 yn nodi asesiad y Gweinidog ynghylch pa rai o ddarpariaethau'r Bil y mae angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer, sef:
- cymalau 1 i 5; cymalau 7 i 9; Atodlenni 1 i 4 (Diffiniadau allweddol);
 - cymalau 10, 11 a 13 (Egwyddorion ac Amcanion);
 - cymalau 14 i 43; Atodlen 5; cymalau 44 i 55; Atodlen 6; Atodlen 7; cymalau 56 i 61 (Dyfarnu Contractau Cyhoeddus a Gweithdrefnau);
 - cymalau 62 i 71; Atodlen 8; cymalau 72 a 73 (Rheoli contractau cyhoeddus);
 - cymalau 74 i 76 (Gwrthdaro buddiannau);
 - cymal 77; cymalau 79 ac 80 (Contractau islaw'r trothwy);
 - cymalau 81 ac 82; Atodlen 9 (Gweithredu rhwymedigaethau rhyngwladol);
 - cymalau 84 i 88 (Gwybodaeth a hysbysiadau: darpariaeth gyffredinol);

⁶ Llywodraeth Cymru, [Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, Y Bil Caffael](#), Mehefin 2022

⁷ Y Pwyllgor Busnes, [Amserlen ar gyfer ystyried: Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Caffael](#), Mehefin 2022

⁸ Y Pwyllgor Busnes, [Amserlen ddiwygiedig ar gyfer ystyried: Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Caffael](#), Mehefin 2022

⁹ Y Pwyllgor Busnes, [Amserlen ddiwygiedig ar gyfer ystyried: Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Caffael](#), Medi 2022

- cymalau 89 i 95 (Rhwymediau am dorri dyletswydd statudol);
- cymalau 96 i 98 (Goruchwyliaeth Caffael);
- cymal 99; cymalau 101 i 103 (Awdurdodau Priodol a Chaffael Trawsffiniol);
- cymal 104; cymalau 106 a 107; Atodlen 11 (Diwygiadau a Diddymiadau); a
- chymalau 109 i 113; cymal 115 (Cyffredinol).

10. Mae Llywodraeth y DU a'r Gweinidog yn cytuno nad oes angen cydsyniad y Senedd ar gyfer cymalau 12, 78, 83, 100 a 108. Nid yw Llywodraeth y DU o'r farn bod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer cymalau 51 a 99, yn groes i farn y Gweinidog bod angen cydsyniad ar gyfer y cymalau hynny. I'r gwrthwyneb, mae Llywodraeth y DU yn credu bod angen cydsyniad ar gyfer cyfres o gymalau eraill – cymalau 6, 105, 114 ac 116 – ond nid yw Llywodraeth Cymru yn credu hynny.¹⁰

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru (Memorandwm Rhif 2)

11. Ar 11 Gorffennaf 2022, gosododd y Gweinidog Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) gerbron y Senedd¹¹ mewn perthynas â gwelliannau a ystyriwyd yn ystod y cyfnod Pwyllgor yn Nhŷ'r Arglwyddi, a gyflwynwyd ar 27 Mehefin 2022.¹²

12. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus gyflwyno adroddiad ar Femorandwm Rhif 2 erbyn 10 Tachwedd 2022.¹³¹³ Symudwyd y dyddiad adrodd hwn wedyn i 24 Tachwedd 2022.¹⁴

Rhyngweithio'r Bil â deddfwriaeth arall

Y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus

13. Cafodd y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus ei gyflwyno yn y Senedd ar 7 Mehefin 2022. Mae'r Gweinidog yn esbonio ym mharagraff 11 o Femorandwm Rhif 1 fod y Bil

¹⁰ Y Bil Caffael: Atodiad A – Rychwant tiriogaethol a chymhwyso yn y Deyrnas Unedig

¹¹ Llywodraeth Cymru, [Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol \(Memorandwm Rhif 2\), Y Bil Caffael, 2022](#)

¹² Y Bil Caffael, [Gwelliannau i'w cynnig yn yr Uwch-Bwyllgor](#), Gorffennaf 2022

¹³ Y Pwyllgor Busnes, [Amserlen ar gyfer ystyried: Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar y Bil Caffael](#), Gorffennaf 2022

¹⁴ Y Pwyllgor Busnes, [Amserlen ddiwygiedig ar gyfer ystyried: Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Caffael](#), Medi 2022

Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus "hefyd yn cynnig gosod rhwymedigaethau o ran caffael ar gyrrff cyhoeddus diffiniedig yng Nghymru".

14. Mae'r Gweinidog yn esbonio ymhellach y rhyngweithio rhwng y ddau Fil ym mharagraff 12 o Femorandwm Rhif 1:

'Mae Bil Caffael Llywodraeth y DU yn canolbwyntio ar y prosesau caffael, mae'r Bil SPPPP ar y llaw arall yn canolbwyntio ar sicrhau bod caffael yn esgor ar ganlyniadau cymdeithasol gyfrifol. Gyda'i gilydd, bydd y ddau Fil yn darparu trefn gaffael newydd sy'n sicrhau canlyniadau cymdeithasol, amgylcheddol, economaidd a diwylliannol, gan gynnwys gwaith teg.'

Bil Masnach (Awstralia a Seland Newydd)

15. Cyflwynwyd Bil Masnach (Awstralia a Seland Newydd) yn Senedd y DU ar 11 Mai 2022. Gosododd Llywodraeth Cymru Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â'r Bil ar 25 Mai 2022.

16. Ym mharagraff 15 o Femorandwm Rhif 1 mae'r Gweinidog yn nodi:

'Caiff Bil Masnach (Awstralia a Seland Newydd) yn ogystal â'r diwygiadau i Ddeddf Llywodraeth Cymru a wneir trwy Fil Masnach (Awstralia a Seland Newydd) eu diddymu gan y Bil Caffael.'

17. Mae'r Gweinidog yn nodi manteision canfyddedig y Bil ym mharagraff 117 o Femorandwm Rhif 1. Maent yn cynnwys gweithdrefnau symlach, mwy o hyblygrwydd a mwy o dryloywder.

18. Ym mharagraff 118 mae'r Gweinidog yn rhestru ei rhesymau pam mae deddfu ar sail Cymru a Lloegr yn ddewis "pragmatig". Mae'r rhesymau hynny'n cynnwys dilyniant i gyflenwyr a phrynwyr, yn enwedig y rhai sy'n gweithredu ar draws ffiniau, ac alinio polisïau, ond gyda rhanddirymiaid neu eithriadau wedi'u sicrhau lle nad oes alinio.

19. Mae'r Gweinidog yn mynd ymlaen i egluro bod darpariaethau'r Bil, yn ei barn hi, "yn synhwyrol ac yn bwysig", ac mae'n awgrymu bod manteision amseru ac adnoddau i'r dull o ddeddfu:

- *"Amseru: mae Llywodraeth y DU wedi cael cyflwyno deddfwriaeth i Senedd y DU lawer cynt nag y byddai amserlen Senedd Cymru wedi'i chaniatáu. Trwy weithredu ar y cyd, daw diwygiadau i rym yn gynt yng Nghymru nag a fyddai'n bosibl fel arall.*
- *Mae defnyddio Bil y DU yn caniatáu i Lywodraeth Cymru ganolbwyntio adnoddau ar agweddau pwysig eraill ar gaffael sy'n sicrhau gwerth cymdeithasol ac sy'n*

sbardunau allweddol i newid, megis y Bil SPPP a Datganiad Polisi Caffael Cymru (WPPS), ac ati."¹⁵

20. Mae'r Gweinidog yn nodi ym mharagraff 119, er ei bod "yn fodlon i'r broses cydsynio deddfwriaethol ddechrau", mae nifer o bryderon i'w datrys cyn bod modd argymell cydsyniad. Mae'r pryderon hynny'n cynnwys:

- cynnwys pŵer cydredol i ychwanegu cytundebau rhyngwladol at y rhestr yn Atodlen 9 i'r Bil heb unrhyw ofyniad i gael cydsyniad Gweinidogion Cymru pan fydd Gweinidogion Llywodraeth y DU yn ei arfer mewn meysydd datganoledig;
- diffyg pwerau cychwyn ar gyfer Gweinidogion Cymru;
- cynnwys pwerau cydredol i wneud darpariaeth ganlyniadol ac ati heb unrhyw ofyniad i gael cydsyniad Gweinidogion Cymru pan fydd Gweinidogion Llywodraeth y DU yn eu harfer mewn meysydd datganoledig.

21. Mae'r Gweinidog hefyd yn nodi ym mharagraff 119 ei bod wedi ysgrifennu at y Gweinidog dros Gyfleoedd Brexit ac Effeithlonrwydd y Llywodraeth ar 18 Mai 2022 i ystyried gwelliant i'r Bil i newid y diffiniad o Awdurdodau Contractio Cymru yn y Bil, "gyda'r bwriad o sicrhau bod y cymalau'n gweithio'n decach mewn perthynas â rhai achosion o gaffael trawsffiniol".

22. Mae casgliad y Gweinidog ym mharagraff 123 yn crynhoi ei safbwynt ar y Bil:

'Yn fy mam i, mae'n briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn yn y Bil hwn ar gyfer y DU, gan mai'r Bil yw'r ffordd fwyaf effeithiol o ddod â'r darpariaethau hyn i rym. Mae fy swyddogion wedi gweithio'n agos gyda swyddogion yn Swyddfa'r Cabinet i sicrhau bod amcanion polisi Cymru wedi'u cynnwys ac rwyf o'r farn y byddai'r darpariaethau hyn yn darparu cyfundrefn gaffael symlach a thryloyw yng Nghymru. Fodd bynnag, nid yw'n briodol argymell cydsyniad nes bod y materion sy'n peri pryder fel y'u hamlinellir ym mharagraff 119 uchod wedi'u datrys.'

Y wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa ers cyhoeddi Memorandwm Rhif 1 a'r gwelliannau y mae angen cydsyniad ar eu cyfer

23. Ym mharagraff 11 o Femorandwm Rhif 2, mae'r Gweinidog yn cadarnhau bod trafodaethau yn mynd rhagddynt rhwng swyddogion i ddatrys y rhan fwyaf o'r pryderon a amlinellir ym Memorandwm Rhif 1, gan gynnwys y rheini mewn perthynas â'r pwerau cydredol, pwerau cychwyn, a'r diffiniad o Awdurdodau Contractio Cymru.

24. Mae'r Gweinidog hefyd yn nodi i Lywodraeth y DU gyflwyno 320 o welliannau i'r Bil ar 27 Mehefin, gyda'r mwyafrif ohonynt yn gwneud darpariaeth sy'n gofyn am gydsyniad y Senedd, a chynigiwyd nifer ohonynt i'w cynnwys gan Lywodraeth Cymru.¹⁶

25. Mae'r Gweinidog yn nodi'r gwelliannau sy'n gwneud darpariaeth i ofyn am gydsyniad y Senedd ym mharagraff 14; caiff y rhain eu disgrifio'n bennaf fel rhai "mân" a rhai sy'n "rhoi eglurder". Mae'r Gweinidog hefyd yn datgan, gan fod y gwelliannau'n ymwneud â'r darpariaethau a amlinellir ym Memorandwm Rhif 1, fod ei rhesymeg dros wneud y darpariaethau fel y'u nodir yn y memorandwm hwnnw yn parhau i fod yn gymwys.¹⁷ Daw'r Gweinidog i'r casgliad:

'Yn fy marn i, mae'n briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn yn y Bil hwn ar gyfer y DU, gan mai'r Bil yw'r ffordd fwyaf effeithiol o ddod â'r darpariaethau hyn i rym. Mae fy swyddogion wedi gweithio'n agos gyda swyddogion yn Swyddfa'r Cabinet i sicrhau bod amcanion polisi Llywodraeth Cymru wedi'u cynnwys ac rwyf o'r farn y byddai'r darpariaethau hyn yn darparu cyfundrefn gaffael symlach a thryloyw yng Nghymru.

*Er fy mod o'r farn bod y gwelliannau a gynigir yn rhai rhesymol, yn yr ystyr ei bod yn ymddangos eu bod yn gwneud gwelliannau i'r Bil fel y'i cyflwynwyd ac nad ydynt yn creu unrhyw bryderon newydd i mi, rwyf hefyd o'r farn nad yw'n briodol argymhell cydsyniad nes bod y materion sy'n weddill fel y'u hamlinellir ym mharagraff 11 uchod wedi'u datrys. Bydd fy swyddogion yn parhau i weithio gyda Llywodraeth y DU i ddatrys y materion hyn.'*¹⁸

2. Trafodaeth y Pwyllgor

26. Gwnaethom drafod Memorandwm Rhif 1 yn ein cyfarfod ar 14 Gorffennaf 2022. Ar 28 Gorffennaf, fe wnaethom gyhoeddi llythyr ar y cyd â'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn gofyn am ragor o wybodaeth am Femorandwm Rhif 1¹⁵. Ymatebodd y Gweinidog i'r llythyr ar 1 Medi.¹⁶

¹⁵ [Llythyr ar y cyd at y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 28 Gorffennaf 2022](#)

¹⁶ [Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol at y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 1 Medi 2022](#)

- 27.** Gwahoddwyd Aelodau o'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad i'n sesiwn dystiolaeth gyda'r Gweinidog ar y ddau femorandwm ar gyfer y Bil, a gynhaliwyd ar 21 Medi.
- 28.** Gwnaethom gytuno ar ein hadroddiad ar 10 Tachwedd 2022.

Sylwadau cyffredinol

- 29.** Rydym yn nodi rhesymau Llywodraeth Cymru dros wneud darpariaeth i Gymru yn y Bil, fel y'u nodir yn y memoranda. Trafodir y materion hyn isod.
- 30.** Nodwn fod Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn anghytuno rywfaint ynghylch pa rai o gymalau'r Bil y mae angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer.
- 31.** Yn benodol, nodwn nad yw Llywodraeth Cymru yn cytuno â barn Llywodraeth y DU bod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer cymalau 114 (Rhychwant) a 116 (Teitl byr) o'r Bil. Rydym yn nodi esboniad y Gweinidog bod y cymalau hyn "yn ddarpariaethau technegol sy'n ymwneud â sut mae'r Bil yn gweithio yn hytrach na darpariaethau o sylwedd"¹⁷, ond, i osgoi unrhyw amheuaeth, credwn y dylid ceisio cydsyniad y Senedd ar gyfer cymalau 114 a 116.

Casgliad 1. Casgliad 1. Rydym yn cytuno ag asesiad Llywodraeth Cymru fod yr holl gymalau ac atodlenni a restrir yn y Memoranda yn dod o fewn diben yng nghymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, fel y'i disgrifir yn Rheol Sefydlog 29.

Casgliad 2. Casgliad 2. Rydym yn cytuno ag asesiad Llywodraeth Cymru fod cymalau 106 a restrir yn y Memoranda yn addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, fel y'i disgrifir yn Rheol Sefydlog 29.

Casgliad 3. Casgliad 3. Rydym yn credu bod cymalau 114 a 116 o'r Bil hefyd o fewn diben yng nghymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, fel y'i disgrifir yn Rheol Sefydlog 29.

Argymhelliad 1. Rydym yn argymell y dylid hefyd geisio cydsyniad y Senedd ar gyfer cymalau 114 a 116, a dylai unrhyw femoranda yn y dyfodol mewn perthynas â'r Bil eu nodi'n unol â hynny.

Y penderfyniad i beidio â chynnwys darpariaethau ym Mil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru)

- 32.** Yn ei llythyr at y Pwyllgor, mae'r Gweinidog yn nodi ei rhesymeg dros beidio â deddfu ar gyfer caffael yng Nghymru mewn un Bil ehangach a fyddai wedi ymgorffori darpariaethau Bil y

¹⁷ Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, 1 Medi 2022, tudalen 4

DU a Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus Llywodraeth Cymru. Mae'r Gweinidog yn awgrymu y byddai gwneud hynny:

'yn golygu newid cwmpas y Bil SPPP, gan y byddai'n cael ei newid i fod yn Fil Caffael yn bennaf ac yn symud ei ffocws oddi wrth Bartneriaethau Cymdeithasol'.

33. Dywedodd y Gweinidog hefyd:

*'mae'r ddau Fil yn anelu at gyflawni gwahanol bethau – mae'r Bil Caffael yn canolbwyntio ar y prosesau sy'n gosod y seiliau ar gyfer caffael, tra bo'r Bil SPPP yn canolbwyntio ar sicrhau bod ein gweithgareddau caffael yn arwain at ganlyniadau sy'n gymdeithasol gyfrifol.'*¹⁸

34. O ran yr effaith y bydd y dull hwn yn ei chael ar y cyfleoedd i Aelodau o'r Senedd wneud gwaith craffu deddfwriaethol manwl ar bwnc Bil y DU, esboniodd y Gweinidog:

'Bydd y broses cydsyniad deddfwriaethol yn sicrhau bod modd i'r Senedd wneud gwaith craffu, gan helpu i sicrhau bod Llywodraeth y DU yn glynu wrth yr addewidion a wnaethant pan gytunom i gynnwys awdurdodau contractio Cymru yn y Bil.[..]

*Mae gan Weinidogion Cymru bwerau cyfatebol mewn meysydd sylweddol o'r Bil, felly bydd lefel sylweddol o is-ddeddfwriaeth a fydd yn destun craffu deddfwriaethol manwl yn y Senedd, a bydd gwaith ymgysylltu ac ymgynghori ehangach yn cael ei wneud â rhanddeiliaid ledled Cymru.'*¹⁹

35. Y gwaith craffu a wneir gan y Senedd y mae'r Gweinidog yn cyfeirio ato yw'r broses memorandwm cydsyniad deddfwriaethol, sy'n arwain at drafod cynnig cydsyniad deddfwriaethol yn y Cyfarfod Llawn. Credwn fod y broses honno'n wahanol iawn o'i chymharu â'r gwaith o graffu ar Fil yn y Senedd, lle mae mwy o gyfleoedd i ymgysylltu â rhanddeiliaid, ac mae modd cyflwyno gwelliannau i roi prawf ar ddeddfwriaeth a cheisio gwelliannau iddi.

¹⁸ Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol at y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 1 Medi 2022

¹⁹ Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol at y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 1 Medi 2022

36. O ran y broses graffu, fe wnaethom ni ofyn a fyddai'r Gweinidog yn cydnabod y ffaith bod y gwaith craffu o dan y broses cydsyniad deddfwriaethol yn llai o ran ei graddau a'i chwmpas o'i gymharu â'r graddau a chwmpas llawer mwy a geir ar gyfer un o Filiau'r Senedd.

37. Tynnodd y Gweinidog sylw at y gwaith craffu sy'n cael ei wneud gan Bwyllgorau'r Senedd, gan gynnwys ein Pwyllgor ni a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad. Eglurodd hefyd fod rhanddeiliaid o Gymru wedi bod yn rhan o'r gwaith o ddatblygu'r Bil, a bod hyn wedi helpu Llywodraeth Cymru i ddeall eu dyheadau a'u pryderon, a'u cyfleu'n effeithiol i Lywodraeth y DU.²⁰ Ychwanegodd:

*'Because of the excellent working relationship that officials have had with the UK Government, we've been able to influence the Bill and to make changes to the Bill. And that is very much based on what our stakeholders have been telling us. So, I think that there has been an opportunity to influence.'*²¹

38. Rydym yn pryderu bod y cyfleoedd i wneud gwaith craffu manwl fel rhan o'r broses cydsyniad deddfwriaethol yn brin. Rydym yn rhannu barn y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ac yn anghytuno ag awgrym y Gweinidog fod y broses cydsyniad deddfwriaethol yn gyfwerth â'r broses graffu deddfwriaethol fanwl ar un o Filiau'r Senedd. Mae ystyried un o Filiau'r Senedd yn cynnwys ymgynghoriad eang ar ei egwyddorion cyffredinol cyn gwaith craffu fesul llinell mewn pwyllgor ac ar lawr y Senedd; elfennau sy'n gwbl absennol o'r broses cydsyniad deddfwriaethol.

39. Er ein bod yn nodi barn y Gweinidog bod rhanddeiliaid yng Nghymru wedi cael y cyfle i herio darpariaethau'r Bil, a dylanwadu a chraffu arnynt, yn gyffredinol nid ydym yn credu bod cyfleoedd o'r fath mor helaeth a thryloyw â'r rhai sydd gan rhanddeiliaid yn ystod gwaith craffu Cyfnod 1 ar un o Filiau'r Senedd.

40. Nid ydym ychwaith yn credu bod gallu swyddogion Llywodraeth Cymru i "graffu" ar Lywodraeth y DU yn ddull craffu tryloyw, yn enwedig gan nad yw'n rhoi cyfle i gynrychiolwyr etholedig gael dylanwad.

41. Fe wnaethom ni holi'r Gweinidog ynghylch y penderfyniad i beidio â chyflwyno Bil caffael ehangach yn cwmpasu Bil Caffael y DU a Bil Partneriaethau Cymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) ac a wnaeth proses y Gweinidog o wneud penderfyniad ystyried manteision mynd ar drywydd un Bil. Dywedodd y Gweinidog:

²⁰ Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 21 Medi 2022, Cofnod y Trafodion [55]

²¹ Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 21 Medi 2022, Cofnod y Trafodion [55]

*'The two pieces of legislation are seeking to address two quite different things. The procurement Bill focuses on the processes that underpin procurement, and they will help to have that practical consistency of approach across England, Wales and Northern Ireland, whereas our Social Partnership and Public Procurement (Wales) Bill focuses very much on our policy aims and what we want to achieve through the activities of procurement.'*²²

42. Dywedwyd wrthym hefyd fod nifer o fanteision o gael dull gweithredu cyson rhwng Gogledd Iwerddon, Lloegr a Chymru, yn enwedig ar gyfer caffael trawsffiniol ac i fusnesau lle byddant yn gweithio yng Nghymru a Lloegr. Esboniodd un o swyddogion Llywodraeth Cymru:

*'And Wales has only got about 5 per cent of the procurement spend of the whole of the UK, and we would be concerned that, if we had [a] totally different process than the UK, that could adversely impact on the willingness of suppliers to actually work in Wales.'*²³

43. Fe wnaeth rhanddeiliaid fynegi pryderon wrthym y gallai'r ddau Fil ar wahân achosi dryswch. Mae Cyngor Caerffili o'r farn y dylai'r gwaith o ddiwygio caffael gael ei gynnwys mewn un Bil sy'n cwmpasu pob agwedd ar gaffael ar draws y DU/Cymru²⁴. Mae'r Cyngor yn awgrymu y gallai fod dryswch hirdymor ym maes caffael yng Nghymru oherwydd bod y broses yn dod o dan ddau Fil.²⁵

44. Mae'r Cyngor hefyd yn pryderu am faint o broses a gwaith adrodd y gallai'r ddau Fil eu creu mewn maes caffael cyhoeddus sydd eisoes yn destun gormod o waith craffu a gwaith adolygu di-baid yng Nghymru.²⁶ Dywed y Cyngor ymhellach fod llawer gormod o ddyblygu ac ansicrwydd ynghylch polisi caffael yng Nghymru.²⁷

²² Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 21 Medi 2022, Cofnod y Trafodion [26]

²³ Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 21 Medi 2022, Cofnod y Trafodion [28]

²⁴ [Tystiolaeth ysgrifenedig gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili](#)

²⁵ [Tystiolaeth ysgrifenedig gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili](#)

²⁶ [Tystiolaeth ysgrifenedig gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili](#)

²⁷ [Tystiolaeth ysgrifenedig gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili](#)

45. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn cytuno â Chyngor Caerffili y byddai un Bil yn fwy na thebyg yn fwy eglur.²⁸ Fodd bynnag, mae CLILC yn cyfaddef “mae’r pwnc yn bwysig, a gallwn ddeall sut y daethpwyd i lunio dau Fil”.²⁹

46. Fe wnaethom ni godi’r materion hyn gyda’r Gweinidog, a roddodd sicrwydd i ni fod gan Lywodraeth Cymru:

‘commitment to ensure that we work constructively and collaboratively with the UK Government to ensure that any training and guidance that comes forward from them is very much able to dovetail with what else we’ll be requiring from people here in Wales in terms of thinking about the social values that we want to see achieved through procurement.’³⁰

47. Fe wnaethom ni bwysu ar y Gweinidog i weld i ba raddau yr oedd yn cydnabod y byddai Bil Cymreig ar wahân wedi goresgyn yr angen, gan ddyfynnu datganiad o’i llythyr atom i “ddwyn sylw at feysydd lle nad oedd cymalau arfaethedig y Bil yn cyd-fynd ag amcanion polisi Cymru ac a fyddai wedi datrys y pryderon sy’n weddill”³¹. Atebodd y Gweinidog:

‘...given the fact that the Bill itself is quite large—116 clauses across 11 schedules—but that we’ve only had to call out, as it were, a handful of areas in which to have derogations made, it does demonstrate that we see the way in which the Bill is moving forward takes us on towards a joint vision, I think, of procurement in the future, and I think that that’s helpful in the sense that it will avoid having two entirely different Bills relating to procurement across the England and Wales border. So, I think that we’ve taken a pragmatic approach, recognising that what UK Government is setting out to achieve is something that we would want to achieve ourselves.’³²

48. Rydym yn nodi bod y Bil yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth ac fe wnaethom ni ofyn i’r Gweinidog sut, yn ei barn hi, y gellir sicrhau cysondeb drwy roi is-ddeddfwriaeth ar wahân ar waith yng Nghymru a Lloegr ond nid deddfwriaeth sylfaenol ar wahân. Fe wnaethom ni ofyn a fyddai hynny’n dod o dan ddulliau eraill megis fframweithiau.

²⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC)

²⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC)

³⁰ Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 21 Medi 2022, Cofnod y Trafodion [46]

³¹ Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol at y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 1 Medi 2022, tudalen 4

³² Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 21 Medi 2022, Cofnod y Trafodion [51]

49. Eglurodd y Gweinidog fod y dull y mae'r Bil hwn yn ei fabwysiadu yn cyd-fynd â'r egwyddorion cyffredinol ar gyfer argymell cydsyniad i Filiau'r DU. Esboniodd mai rhywbeth sy'n hanfodol i'r egwyddorion hynny yw'r ffaith y bydd Gweinidogion Cymru bob amser yn ceisio pwerau cyfatebol ar gyfer gwneud rheoliadau a rheoleiddio i Weinidogion Llywodraeth y DU, ac mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda swyddogion Llywodraeth y DU i sicrhau bod cysondeb.³³

50. Ychwanegodd y byddai unrhyw newidiadau yn y dyfodol o dan y pwerau hyn yn fach ac yn ddarostyngedig i'r fframwaith cyffredin ar gyfer caffael, a'i bod yn hyderus na fyddai llawer o ddryswch nac ymwahanu.³⁴

Casgliad 4. Rydym yn fodlon â phenderfyniad y Gweinidog i beidio â chynnwys darpariaethau yn y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus ac yn deall y rhesymeg dros wneud hyn er mwyn sicrhau cysondeb. Rydym yn credu y bydd cydweithio â Llywodraeth y DU yn sicrhau bod busnesau Cymru yn gallu manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd caffael ochr yn ochr â Lloegr a Gogledd Iwerddon ac achosion o gaffael trawsffiniol.

Argymhelliad 2. Rydym yn argymell bod y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol yn rhoi amserlen i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus ar gyfer cyflwyno a gweithredu is-ddeddfwriaeth, gan gynnwys rheoliadau a fydd yn cynnwys manylion ynghylch sut y bydd rheolau caffael yn gweithredu.

Argymhelliad 3. Rydym yn argymell bod y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus ymhen 12 mis ar hynt Bil Caffael Llywodraeth y DU a'i weithrediad yng Nghymru.

Argymhelliad 4. Rydym yn argymell bod y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygu'r cynllun prosiect ar gyfer is-ddeddfwriaeth sy'n angenrheidiol er mwyn rhoi manylion ar waith cyn i'r Bil ddod i rym, y trafodaethau â Swyddfa'r Cabinet i sicrhau dull gweithredu cyson a'r amserlenni ar gyfer yr is-ddeddfwriaeth.

³³ Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 21 Medi 2022, Cofnod y Trafodion [53]

³⁴ Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 21 Medi 2022, Cofnod y Trafodion [53]

Gweithredu'r drefn gaffael newydd

- 51.** Rydym yn awyddus i ddeall barn rhanddeiliaid am weithrediad y drefn gaffael newydd a'i gweithrediad yn y dyfodol, a chynhaliwyd ymgynghoriad ysgrifenedig fel rhan o'n gwaith i gael barn rhanddeiliaid am y materion hyn.
- 52.** Dywedodd Cyngor Caerffili, fel yn achos cyflwyno unrhyw ddeddfwriaeth newydd, y bydd angen rheoliadau a hyfforddiant helaeth. Yn ôl y Cyngor, mae cynigion presennol deddfwriaeth y DU a Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus Llywodraeth Cymru yn dangos newid sylfaenol mewn meddylfryd a diwylliant, ac o'r herwydd bydd angen cymorth pwrpasol ar ochr y prynwr a'r cyflenwr.³⁵
- 53.** Aethom ar drywydd y pryderon hyn yn ystod y dystiolaeth lafar, gan ofyn i'r Gweinidog a oedd cynlluniau ar gyfer hyfforddi a datblygu gweithwyr caffael proffesiynol yng Nghymru i sicrhau bod ganddynt y wybodaeth a'r ddealltwriaeth angenrheidiol o'r drefn newydd. Eglurodd y Gweinidog:

*'[There] will need to be a considerable amount of training and support provided, both to buyers and suppliers, as a result of the new legislation coming in to help them understand that, and I think that the role of guidance will also be really important. We will be ensuring that Business Wales is able to provide support for suppliers, particularly in terms of helping them understand how to bid for contracts within the new procurement system. That's going to include focused support for the changing requirements, so that they can understand what's going to be different in the future. At the same time, we'll have to ensure that procurement professionals themselves have a full range of support and training available to them. I know that the UK Government is already planning to have a range of support available. I think there will be videos, there will be training sessions and so on. What we'll need to do then, of course, is make sure that that is complemented by training on the Bill that we're bringing forward in Wales to help procurement professionals see the link-up across, really, and to ensure that they're able to operate in both senses.'*³⁶

³⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

³⁶ Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 21 Medi 2022, Cofnod y Trafodion [41]

- 54.** Dywedodd y Gweinidog hefyd ei bod yn credu mai'r hyn sy'n bwysig yw bod yr hyfforddiant a'r cymorth ar gael i allu symud ymlaen yn hyderus.³⁷
- 55.** Mewn datganiad ysgrifenedig ar 5 Hydref 2022, cyhoeddodd y Gweinidog gynlluniau ar gyfer cychwyn y Ganolfan Ragoriaeth Caffael.³⁸
- 56.** Rydym yn croesawu ymrwymiad y Gweinidog i ddatblygu hyfforddiant a chymorth i weithwyr caffael proffesiynol ar ochr y cyflenwyr a'r prynwyr, gan gynnwys ei chyhoeddiad diweddar ynghylch cychwyn y Ganolfan Ragoriaeth Caffael.
- 57.** I'n helpu i ddeall barn rhanddeiliaid Cymru yn well, fe wnaethom ni ofyn i'r Gweinidog roi gwybodaeth ychwanegol i ni am unrhyw wahaniaethau rhwng yr ymatebion i'r ymgynghoriad a gyflwynwyd gan lywodraeth leol Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Lloegr i'r ymgynghoriad 'Transforming Public Procurement' a gynhaliwyd gan Lywodraeth y DU.
- 58.** Yn ei llythyr at y Pwyllgor, esboniodd y Gweinidog:

*'... roedd cysondeb eang yn yr ymatebion a ddarparwyd i'r ymgynghoriad, a chonsensws cyffredinol y gallai systemau a phrosesau caffael elwa o gael eu diwygio i sicrhau canlyniadau caffael gwell. Rhagwelwyd y byddai yna wahaniaethau rhwng yr ymatebion mewn rhai meysydd oherwydd lleoliad daearyddol a gwahaniaethau sefydliadol a diwylliannol, a gwelwyd llawer o'r rhain yn yr ymatebion a ddarparwyd.'*³⁹

- 59.** Mae'r llythyr hefyd yn esbonio bod y gwahaniaethau mewn llawer o achosion yn geisiadau am ragor o wybodaeth yn hytrach na phwyntiau o ymwahanu gwirioneddol oddi wrth yr egwyddorion allweddol a gynigiwyd, gan ychwanegu:

'O ganlyniad i'r berthynas agos sydd wedi'i datblygu rhwng swyddogion Swyddfa'r Cabinet a Llywodraeth Cymru yn ystod datblygiad y Bil hwn, rydym wedi ceisio tynnu sylw at nifer o'r pryderon a nodwyd yn ystod y broses ddrafftio, a mynd i'r afael â nhw. Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru wedi sicrhau pwerau creu rheoliadau cyfatebol yn y rhan fwyaf o feysydd y ddeddfwriaeth, sy'n golygu ein bod yn gallu datblygu is-ddeddfwriaeth ein

³⁷ Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 21 Medi 2022, Cofnod y Trafodion [42]

³⁸ Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, Datganiad Ysgrifenedig: Dechrau Cam Alffa ar gyfer Canolfan Ragoriaeth Caffael

³⁹ Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, 2 Tachwedd 2022

hunain i Gymru. Bydd hyn yn helpu i fynd i'r afael â rhai o'r gwahaniaethau penodol a amlygwyd'.⁴⁰

Pwerau cydredol

60. Mae egwyddorion Llywodraeth Cymru ar gyfer Biliau'r DU yn nodi "na ddylai Biliau'r DU greu pwerau cydredol".⁴¹ Mae diffiniadau o bwerau cydredol a chydredol plws (o'r canllawiau i staff Llywodraeth Cymru⁴²) i'w gweld ym Mluch 1:

Bluch 1: Diffiniadau

Pŵer cydredol yw pŵer y gellir ei weithredu:

(a) gan Weinidogion Cymru, mewn perthynas â Chymru; neu

(b) gan Weinidogion y DU mewn perthynas â Chymru (er enghraifft, pan fo Gweinidogion y DU yn gweithredu pwerau mewn perthynas â'r DU gyfan; neu mewn perthynas â Chymru a Lloegr).

Ni ddylai Gweinidogion y DU weithredu eu pwerau mewn perthynas â Chymru heb gytundeb Gweinidogion Cymru fel arfer, ond (oni bai ei fod yn bŵer cydredol plws – gweler isod) nid oes gofyniad cyfreithiol iddynt gael cydsyniad er mwyn deddfu.

Pŵer "cydredol plws" yw math arbennig o bŵer cydredol y gellir ei weithredu:

(a) gan Weinidogion Cymru, mewn perthynas â Chymru; neu

(b) yn amodol ar gydsyniad Gweinidogion Cymru, gan Weinidogion y DU mewn perthynas â Chymru.

Pan fo Gweinidogion Cymru yn ystyried a ddylid rhoi cydsyniad i Weinidogion y DU weithredu pŵer cydredol plws, maent yn gweithredu swyddogaeth statudol. Os nad ydynt yn rhoi cydsyniad, ni all Gweinidogion y DU weithredu'r pwerau hyn mewn perthynas â Chymru

61. Mae'r canllawiau i staff Llywodraeth Cymru yn cynnwys yr egwyddor a ganlyn:

⁴⁰ Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, 2 Tachwedd 2022

⁴¹ Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 22 Hydref 2021, Atodiad B: Egwyddorion Llywodraeth Cymru ar gyfer Biliau'r DU

⁴² Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 6 Awst 2021

'Egwyddor 8: Dylid ond creu swyddogaethau cydredol newydd mewn amgylchiadau eithriadol iawn a dylai timau sicrhau y bydd eithriad mesurau yn berthnasol fel na fydd angen cydsyniad wrth eu dileu (i warchod cymhwysedd deddfwriaethol), a'u bod yn gydredol plws (i warchod cymhwysedd gweithredol).⁴³

62. Yn ein llythyr ar y cyd at y Gweinidog, fe wnaethom ni ofyn am naratif ar y pwerau cydredol sydd wedi'u cynnwys yn y Bil, a sut yr oedd y dull a fabwysiadwyd yn cydymffurfio â'r canllawiau ar bwerau cydredol.⁴⁴

63. Wrth ymateb, dywedodd y Gweinidog:

'Mae Gweinidogion Cymru wedi sicrhau pwerau cyfatebol ac annibynnol er mwyn gwneud rheoliadau ar gyfer mwyafrif helaeth o bwerau yn y Bil.

Mae yna bŵer cydredol plws yn y Bil, fel y'i cyflwynwyd, mewn perthynas ag adran 62 (anfonebu electronig). Cytunodd y Cwnsler Cyffredinol a minnau fod rhesymeg gref dros y sefyllfa hon. Ystyriwyd bod pŵer cydredol plws yn briodol, yn bennaf er mwyn darparu cysondeb i'r safonau a'r cystrawennau e-anfonebu sylfaenol ar draws gwledydd y DU, a hynny er mwyn osgoi dryswch a chostau ychwanegol i gyflenwyr. Yn unol â'r canllawiau, mae fy swyddogion wedi sicrhau bod cymhwysedd gweithredol a deddfwriaethol y Senedd wedi'i ddiogelu gan fod hwn yn bŵer cydredol plws ac mae eithriad (carve-out) wedi'i gynnwys o fewn adran 106 o'r Bil.⁴⁵

64. Dywedodd y Gweinidog wrthym fod pwerau cydredol eraill sydd wedi'u cynnwys yn y Bil, a nodwyd am eu bod yn peri pryder ym mharagraff 119 o'r Memorandwm, yn destun trafodaethau parhaus â Llywodraeth y DU. Dywedodd hefyd "mae'n bosib y bydd pwerau cydredol pellach o ganlyniad i ddiwygiadau posib".⁴⁶

65. Mewn tystiolaeth lafar, dywedodd y Gweinidog fod Llywodraeth Cymru yn cynnal trafodaethau â Llywodraeth y DU, a hynny gyda'r bwriad o ddiwygio'r pŵer cydredol i

⁴³ [Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd](#), 6 Awst 2021, Atodiad B: Canllawiau i swyddogion Llywodraeth Cymru ar bwerau cydredol

⁴⁴ [Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd](#), 6 Awst 2021, Atodiad B: Canllawiau i swyddogion Llywodraeth Cymru ar bwerau cydredol

⁴⁵ Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, 1 Medi 2022, tudalen 5

⁴⁶ [Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol](#), 1 Medi 2022, tudalen 5

ychwanegu cytundebau rhyngwladol at y rhestr yn Atodlen 9 i'r Bil.⁴⁷ Dywedodd swyddog a ddaeth i'r Pwyllgor gyda'r Gweinidog:

"... there's been a similar issue faced in relation to the Australia-New Zealand trade Bill that's also being considered as part of the LCM process at the moment, so it seems to be a DIT [Department for International Trade] clause rather than a Cabinet Office clause, and so there are discussions taking place at that level as well".⁴⁸

66. Eglurodd y Gweinidog mai mater o egwyddor i Lywodraeth Cymru oedd ceisio diwygio'r pŵer hwn, yn hytrach na'i fod yn arwain at unrhyw oblygiadau ymarferol mawr.⁴⁹ Esboniodd hefyd nad oedd hi wedi ymgysylltu'n helaeth â'r Adran Masnach Ryngwladol, a hynny oherwydd mai Gweinidog yr Economi sy'n arwain gwaith ymgysylltu o'r fath fel arfer.⁵⁰ Ymhelaethodd swyddog ar y gwaith ymgysylltu hwn:

"... the trade team is doing it on the Australia and New Zealand Bill and the intention is that whatever is agreed on that area will be reflected in the ... Procurement Bill. ... if, and when, we get an agreement with DIT on that area, then whatever's affected will be reflected in the Procurement Bill and that's the intention. We are carrying on to engage with our trade colleagues to make sure that they keep us informed of all the details of those engagements".⁵¹

67. Rydym yn nodi'r pryderon a fynegwyd gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ynghylch natur gymhleth cyfrifoldebau rhyngadrannol o fewn Llywodraeth y DU mewn perthynas â'r pŵer hwn, a allai effeithio'n negyddol ar y tebygolrwydd y caiff pryderon y Gweinidog eu datrys.⁵²

68. Rydym hefyd yn nodi o adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad fod y Gweinidog wedi ysgrifennu at y Gweinidog dros Gyfleoedd Brexit ac Effeithlonrwydd y

⁴⁷ Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 21 Medi 2022, Cofnod y Trafodion [133]

⁴⁸ Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 21 Medi 2022, Cofnod y Trafodion [143]

⁴⁹ Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 21 Medi 2022, Cofnod y Trafodion [145]

⁵⁰ Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 21 Medi 2022, Cofnod y Trafodion [171]

⁵¹ Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 21 Medi 2022, Cofnod y Trafodion [174]

⁵² [Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Adroddiad ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Caffael](#), paragraff 75

Llywodraeth ar 23 Mai 2022 i ofyn iddo ystyried gwelliant i'r Bil i fynd i'r afael â'r mater hwn a'r diffyg eglurder ynghylch a oes ymateb wedi dod i law.⁵³

69. Mae pwerau cydredol plws yn bwerau i Ysgrifennydd y Goron ddeddfu ar gyfer Cymru mewn meysydd sydd o fewn cymhwysedd y Senedd, os rhoddir cydsyniad gan Weinidogion Cymru.

70. Mae'r Bil yn cynnwys pŵer cydredol plws mewn perthynas â chymal 62 (anfonebu electronig), sy'n rhoi pŵer i awdurdod priodol ddiwygio cymal 62 o'r Bil at ddiben newid yr hyn y mae'n ei olygu i anfoneb fod ar y ffurf electronig ofynnol.

71. Mewn perthynas â'r pŵer hwn, mae'r Memorandwm oddi wrth Swyddfa'r Cabinet at y Pwyllgor Pwerau Dirprwyedig a Diwygio Rheoleiddiol yn nodi'r canlynol fel y cyfiawnhad dros gymryd y pŵer:

'The purpose of the power is to allow flexibility with respect to the minimum standards that an electronic invoice must meet, in order to meet the standard of an electronic invoice that a contracting authority has to accept and process. This will develop over time as technology and commercial practice develop. For example regulations would allow movement away from the BSI standard if the BSI standard ceases to be the European standard.'

72. Er nad yw'n bŵer i wneud rheoliadau, mae ar Weinidog y Goron hefyd angen cydsyniad Gweinidogion Cymru cyn cyhoeddi canllawiau o dan gymal 98 yn dilyn ymchwiliad caffael.

73. Pe bai Llywodraeth Cymru yn cydsynio i Weinidog y Goron wneud rheoliadau o dan y pwerau cydredol plws hyn, byddai Gweinidog y Goron yn gallu gwneud rheoliadau mewn meysydd datganoledig, ond ni fyddai'r rheoliadau hyn yn destun gwaith craffu gan y Senedd.

74. Pan ofynnwyd am y sefyllfa ddiweddaraf o ran y pwerau cydredol plws yn y Bil, esboniodd swyddog:

'We've chosen to take one concurrent plus power in the Bill. I think that's at clause 82, in relation to electronic invoicing. So, that was kind of a conscious choice to maintain consistency, that we'd take a concurrent plus power there. The rest that we're comfortable with are all stand-alone equivalent, and then

⁵³ Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Adroddiad ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Caffael, paragraff 76

the only others are these that we've just highlighted in terms of where we're still in a concurrent position or no powers'.⁵⁴

75. Rydym yn croesawu ymrwymiad y Gweinidog i hysbysu'r Senedd os mai bwriad Llywodraeth Cymru yw cydsynio i Weinidog y Goron wneud rheoliadau o dan bwerau cydredol plws..⁵⁵

76. Fe wnaethom ni hefyd ofyn am eglurder ynghylch a fyddai cymal 110(10) yn cael ei ddiwygio i sicrhau bod rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru o dan gymal 70 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft, fel yn achos pŵer Gweinidog y Goron. Eglurwyd bod Llywodraeth y DU:

'...brought forward an amendment to give us equivalent powers under clause 70, but, as things stand, there is not an amendment being tabled to change the Welsh Ministers' procedure to affirmative. But it appears that that is an oversight and there should be parity between the two procedures. That's something where we're having those conversations with them and would expect a further technical amendment to be tabled'.⁵⁶

Argymhelliad 5. Rydym yn argymhell bod y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am y trafodaethau rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar gyflwyno gwelliannau i gymal 110(10) i wneud rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru o dan gymal 70 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.

77. Yn ystod tystiolaeth lafar, fe wnaethom ni ofyn i'r Gweinidog nodi a oedd disgwyl unrhyw welliannau pellach wrth i'r Bil barhau ar ei hynt drwy Senedd y DU a gwnaethom ofyn am yr amserlenni ar gyfer unrhyw femorandwm cydsyniad deddfwriaethol atodol pellach. Cadarnhaodd un o swyddogion Llywodraeth Cymru fod disgwyl Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol arall.⁵⁷

78. Felly, rydym yn croesawu'r ymrwymïadau a wnaed gan y Gweinidog i sicrhau bod memoranda atodol yn y dyfodol:

⁵⁴ Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 21 Medi 2022, Cofnod y Trafodion [148]

⁵⁵ Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 21 Medi 2022, Cofnod y Trafodion [149]

⁵⁶ Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 21 Medi 2022, Cofnod y Trafodion [158]

⁵⁷ Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 21 Medi 2022, Cofnod y Trafodion [83]

- yn nodi'n glir weithdrefn y Senedd pan fo darpariaeth yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth; ac
- yn esbonio sut maent yn wahanol i femoranda blaenorol.⁵⁸

⁵⁸ Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 21 Medi 2022, Cofnod y Trafodion [159]

3. Atodiad A: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig

Rhoddodd y bobl a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Mae'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad a gwybodaeth ysgrifenedig ychwanegol ar gael ar wefan y Pwyllgor.

Cyfeirnod	Sefydliad
1	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
2	Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
3	Cartrefi Cymunedol Cymru